## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (SACRE)

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (SACRE) a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun dydd Llun 12 Tachwedd 2007 am 10.00 a.m.

### PRESENNOL

**Yn cynrychioli Cyngor Sir Dinbych**

Cynghorwyr G.C. Evans, M.M. Jones, D. Owens a G.J. Pickering

**Yn cynrychioli Cyd Bwyllgor Trafod Athrawon Sir Ddinbych**

I. Barros-Curtis, M. Bradshaw, R. Hayward a M.B. Lloyd

**Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol**

H. Ellis, R. Elms, B. Wyn Evans, S. Harris, M. Hatch, y Parchedig B.H. Jones a M. Ludenbach

**Arsyllwr:** Cynghorydd R.E. Barton

### HEFYD YN BRESENNOL

Arolygwr/Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (G. Craigen) a'r Swyddog Gweinyddu (K.E. Jones)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

T. Bryer a'r Cynghorydd N. Hugh-Jones

Hefyd, derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Dysgu gydol Oes a'r Pennaeth Gwella Ysgolion Interim.

### MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrdod tawel.

### CROESO

Croesawodd y Cadeirydd oedd ar fin ymddeol, Mrs. M.B. Lloyd, yr aelodau a'r swyddogion i'r cyfarfod, Croesawyd yn gynnes hefyd dau aelod newydd SACRE sef Roger Hayward sy'n cynrychioli Penaethiaid Ysgolion Uwchradd a Cate Harmsworth sy'n cynrychioli Arbenigwyr Addysg Grefyddol Ysgolion Uwchradd.

### 477 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys i'w ystyried gan y pwyllgor.

### 478 URDDO CADEIRYDD NEWYDD

Yn unol â chyfansoddiad diwygiedig SACRE Sir Ddinbych, urddwyd yr Is-gadeirydd y Parchedig B.H. Jones yn Gadeirydd ar gyfer 2007-09. Croesawodd y Cadeirydd oedd yn ymddeol, Mrs. M.B. Lloyd y Cadeirydd yn ei rôl newydd yn ffurfiol. Diolchodd y Cadeirydd, y Parchedig B.H. Jones i SACRE am y gefnogaeth yn ei ethol ef yn Gadeirydd gan ddweud ei fod yn edrych ymlaen at ymgymryd â'r rôl honno. Hefyd, mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad y Cyngor Ymgynghorol i Mrs. Lloyd am ei harweiniad fel Cadeirydd SACRE dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac am y gwaith caled a wnaeth. Talodd deyrnged hefyd i waith da parhaus Mrs. Lloyd yn y gwaith hwn gyda sefydliadau cysylltiol.

**479 ETHOL IS-GADEIRYDD NEWYDD**

Gwahoddodd y Cadeirydd enwebiadau oddi wrth gynrychiolwyr y Cynghorwyr ar gyfer penodi Is-gadeirydd ar gyfer 2007-09 yn unol â Chyfansoddiad diwygiedig SACRE Sir Ddinbych. Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd G.J. Pickering i'w benodi fel Is-gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf. Gan nad oedd unrhyw enwebiad arall ac ar ôl pleidleisio ar y mater:-

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd G.J. Pickering fel Is-gadeirydd ar gyfer 2007-09.*

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Cynghorydd Pickering ar ei benodiad a dymunodd yn dda iddo yn ei rôl newydd.

**480 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2007 (dosbarthwyd ynghynt) fel y'u derbyniwyd gan y Cyngor Sir ar 18 Medi 2007.

**Materion yn Codi -**

Tudalen 3 - Rhif Eitem 2 - Cofnodion: Materion yn Codi: Canlyniadau Arolwg Hyfforddiant Athrawon Dechreuol i Ysgolion - cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod yr arolwg wedi'i ddiweddaru i gynnwys yr ymatebion diweddaraf oddi wrth ysgolion a'u bod wedi'u hanfon at y colegau dan sylw. Ni chafwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn.

Tudalen 5 - Rhif Eitem 4 - Gweithgor Maes Llafur Cytûn - cymeradwyodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG y gwaith a wnaed gan y Gweithgor Maes Llafur Cytûn hyd yn hyn yn paratoi deunyddiau cefnogi a'r ymagwedd positif a fabwysiadwyd gan yr Aelodau. Cyflwynodd y Cadeirydd ddiolch SACRE i'r Grŵp am ei holl waith caled.

Tudalen 6 - Rhif Eitem 5(b) WASACRE - Materion i'w codi gyda'r Gweinidog dros Addysg - dywedwyd wrth yr Aelodau bod cyfarfod gyda'r gweinidog wedi'i drefnu ar gyfer 26 Tachwedd a bydd adroddiad ar hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf SACRE. Dymunodd yr Aelodau i'r ddirprwyaeth gael cyfarfod buddiol gyda'r gweinidog.

Tudalen 7 – Rhif Eitem 6 – Datblygiad Ysbrydol yn y Cwricwlwm – cadarnhaodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod y ddogfen yn cynnig cyngor ar Ddatblygiad Ysbrydol ar draws y cwricwlwm yn cael ei argraffu a bydd pob athro/athrawes yn yr awdurdod yn derbyn copi ar ôl y Nadolig.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn y cofnodion.*

**481 CYFLWYNIAD: PARTHED YSGOL UWCHRADD DINAS BRAN, LLANGOLLEN**

Cyflwynodd a chroesawodd y Cadeirydd Christine Hannaby, Pennaeth Adran AG Ysgol Dinas Bran, Llangollen i'r cyfarfod. Roedd yn bresennol i roi cyflwyniad ar ddarpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli cyfunol yn yr ysgol.

Diolchodd Ms. Hannaby i'r Aelodau am y gwahoddiad i'r cyfarfod a rhoddodd grynodeb byr o'i chefndir a'i safle yn yr ysgol. Fel rhan o'i chyflwyniad, adroddodd Ms. Hannaby am ganlyniadau arholiadau da iawn yr ysgol (roedd copïau ar gael yn y cyfarfod) fel a ganlyn:-

- Roedd yr holl ganlyniadau arholiadau wedi gwella o 2006 i 2007
- Roedd lefel A yn 2007 yn 100% A – C
- TGAU A* - C Cwrs Llawn yn 72% yn 2006 a 75% yn 2007
- TGAU A* - C Cwrs Byr yn 28% yn 2006 a 60% yn 2007

Teimlai Ms. Hannaby bod angen arholiadau ffurfiol er mwyn codi safonau yn ystod Cyfnod Allweddol 3 a 4. Hefyd, dylid treulio mwy o amser cwricwlwm ar AG. Wrth ddarparu amlinelliad o AG yn yr ysgol, dywedwyd wrth yr Aelodau am y cysylltiadau rhagorol gyda'r eglwysi lleol ac â'r gymuned. Ffurfiwyd

cysylltiadau hefyd gyda Theml Hindu a Mosg Canolog yn Birmingham a'r Gadeirlan yn Lerpwl i ymchwilio i gredoau eraill fel rhan o ddatblygu ymwybyddiaeth aml-ddiwylliant disgyblion.

Wrth gloi ei chyflwyniad, rhoddodd Ms. Hannaby wahoddiad agored i Aelodau ymweld â'r ysgol i weld yr Adran AG drostyn nhw eu hunain.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i godi cwestiynau am amrywiaeth agweddau darpariaeth AG o fewn Ysgol Dinas Bran, gan gyfeirio'n arbennig at safon AG mewn ysgolion sy'n bwydo; nifer y disgyblion yn sefyll AG ar lefelau TGAU ac A; agweddau o'r AG roedd y disgyblion wedi'u mwynhau; rhyngweithiad gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid; datblygu sgiliau dysgu a gwasanaethau.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr ysgol ar ganlyniadau'r arholiadau a diolchodd i Ms. Hannaby am ei chyflwyniad diddorol ac addysgiadol oedd wedi rhoi cipolwg i'r gwaith a wneir yn Ysgol Dinas Bran wrth gyflwyno Addysg Grefyddol.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad ar AG yn Ysgol Dinas Bran, Llangollen a bod llythyr o ddiolch yn cael ei anfon at yr ysgol ar ran SACRE.*

**482 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT SACRE SIR DDINBYCH 2006-07**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG ddrafft o Adroddiad Blynyddol SACRE Sir Ddinbych 2006-07 (dosbarthwyd ynghynt) oedd yn rhoi crynodeb o weithgareddau SACRE Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y Maes Llafur Cytûn; Safonau mewn Addysg Grefyddol; Datblygiad Addoli Cyfunol/SMSC; Darpariaeth HMS, ynghyd ag amrywiol faterion eraill.

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â chanllaw DCELLS i'w gyflwyno erbyn diwedd y flwyddyn. Tynnodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG sylw'r Aelodau at nifer o gamgymeriadau yn Atodiad 4 - Cyfansoddiad SACRE fydd yn cael eu cywiro cyn cwblhau'r adroddiad. Hefyd, yn ychwanegol at y newidiadau mewn Aelodau, bydd y cyfeiriad at y Mudiad Addysg Gristnogol yng Nghymru'n cael ei newid i Fudiad Addysg Grefyddol yng Nghymru a bydd y cyfeiriad at DELLS yn cael ei newid i DCELLS.

Nododd yr Aelodau'r newidiadau y soniwyd amdanyn nhw ar lafar yn y cyfarfod ac roedden nhw'n fodlon derbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith SACRE. Cyflwynwyd diolch i'r Arolygwr/Ymgynghorydd am ei waith yn paratoi'r ddogfen.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) derbyn Adroddiad Blynyddol SACRE Sir Ddinbych 2006-07, a*

*(b) gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol baratoi a dosbarthu'r adroddiad.*

**483 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGON YSGOLION**

Cyflwynodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG adroddiad (dosbarthwyd ynghynt) yn dadansoddi canlyniadau arolygon diweddar tair ysgol rhwng Tachwedd 2006 a Chwefror 2007 ar ddarpariaeth Datblygiad Ysbrydol, Moesegol, Cymdeithasol a Diwylliannol (SMSC), ac Addysg Grefyddol. Cynhaliwyd yr Arolygon yn Ysgol Y Llys, Prestatyn; Ysgol Gymraeg Y Gwernant, Llangollen ac Ysgol Gynradd Stryd y Rhos, Rhuthun ac roedd hanes byr pob ysgol wedi'i ymgorffori i mewn i'r adroddiad.

Rhoddodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG grynodeb byr i'r Aelodau o'r darganfyddiadau ym mhob ysgol gan egluro ac esbonio materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau. Roedd yn braf nodi'r 53 sylw positif ar gyfer SMSC yn y tair ysgol a arolygwyd ac mai dim ond 4 sylw negyddol a gafwyd. Bydd yr ysgolion yn delio â'r pwyntiau negyddol nad oedd wedi'i nodi fel materion allweddol ac roedd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi bod mewn cysylltiad â'r ysgolion yn barod am hyn. O safbwynt Addysg Grefyddol, roedd y tair ysgol wedi cael 35 sylw positif rhyngddyn nhw a dim ond 5 sylw negyddol; roedd 2 o'r rhain wedi'u hail adrodd o dan benawdau gwahanol.

Teimlai Mrs. S. Harris fod y sylw'n ymwneud â'r ffaith nad oedd disgyblion yn gofyn eu cwestiynau eu hunain am faterion ysbrydol yn ddigonol yn ddi-alw-amdano. Cytunodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd

AG gan ddweud ei fod yn ystod un o'i ymweliadau monitro yn yr ysgol arbennig honno wedi clywed nifer o gwestiynau ysbrydol yn cael eu gofyn yn naturiol ond efallai nad oedd hyn wedi digwydd yn ystod yr arolwg neu gallai fod oherwydd y modd yr oedd y cwestiynau wedi'u llunio. Roedd yr ysgol yn fodlon bod y disgyblion yn cael pob cyfle a'u bod yn cael eu hannog i ofyn cwestiynau.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r tair ysgol ar adroddiadau eu harolygon gan nodi bod y sylwadau positif yn llawer mwy na'r ychydig sylwadau negyddol. Nodwyd hefyd bod yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG wedi bod mewn cysylltiad â dwy o'r ysgolion yn barod a diolchodd yr Aelodau iddo am y gwaith roedd wedi'i wneud. Dywedodd y Cadeirydd ei fod hefyd yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol y Llys a thalodd deyrnged i'r cymorth a'r gefnogaeth a gafodd yr ysgol gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG yn dilyn arolygon a diolchodd iddo'n bersonol am hyn.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a)* *derbyn a nodi'r adroddiad, a*

*(b)* *gofyn i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ysgrifennu at yr ysgolion a gafodd yr arolygon yn eu llongyfarch ar y nodweddion da a chynnig gwasanaethau'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG neu swyddogion eraill yr AALl i ddelio ag unrhyw ddiffygion neu faterion allweddol.*

**484 CYMDEITHAS SACRE CYMRU**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod WASACRE a gynhaliwyd yn Llandrindod ar 28 Mehefin 2007 (dosbarthwyd ynghynt).

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei bresenoldeb yng nghyfarfod WASACRE a thalodd deyrnged i gyflwyniad ysbrydoledig gan ddisgyblion Ysgol Sant Christopher, Wrecsam ar eu gardd ffydd. Anogwyd yr Aelodau i ymweld â hi. Gwahoddwyd Aelodau SACRE hefyd i gysylltu ag Ysgol Sant Christopher ar unwaith i drefnu ymweliad.

Atgoffodd Mrs. M.B. Lloyd yr Aelodau fod llawlyfr aelodau newydd SACRE wedi'i ail argraffu a phwysleisiodd yr angen am sicrhau bod copiau ar gael. Awgrymwyd bod copiau o'r llawlyfr ar gael yng nghyfarfod nesaf SACRE i sicrhau bod yr holl Aelodau, arsylwyr ac ymwelwyr yn cael cyfle i gael copi.

Wrth ystyried y cofnodion ac mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.J. Pickering, dywedodd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG mai'r pynciau a ddewiswyd i'w codi gyda'r Gweinidog dros Addysg gan ddirprwyaeth WASACRE/NAPfRE oedd:-

1. Darpariaeth ôl-16 a chymorth i athrawon wrth gyflenwi'r ddarpariaeth gan gynnwys cwestiynau am ariannu datblygiad proffesiynol.
2. Addoli Cyfunol – gan gynnwys newidiadau yn y ddeddfwriaeth ar gyfer disgyblion ôl-16 a diffyg ymgynghori gyda SACREs
3. Materion y dylai AG fod yn delio â hwy yn yr 21ain ganrif
4. Cymwysterau Galwedigaethol/Cymhwysol mewn AG

Nododd yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG fod mater arall wedi'i godi yn ymwneud â newid y ddeddfwriaeth yn y cyfnod sylfaen ond teimlai'r Aelodau fod hwn yn fater oedd yn cael ei drafod yn rhywle arall ar hyn o bryd.
Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd M.M. Jones am ei gwaith ar WASACRE yn ystod ei thymor oedd wedi dod I ben yn ddiweddar. Dywedodd y Cynghorydd Jones ei bod wedi'i hystyried yn fraint cael gwasanaethu ar WASACRE a'i bod wedi mwynhau'r amser yn y rôl honno. Teimlai'r Cynghorydd Jones hefyd ei fod o fudd i aelodaeth WASACRE gylchdroi er mwyn i bobl wahanol gael cyfle i wasanaethu ar y Cyngor hwnnw.

Yn olaf, dywedodd Mrs. M.B. Lloyd na fyddai hi na'r Cadeirydd, y Parchedig B.H. Jones yn gallu mynychu cyfarfod nesaf WASACRE i'w gynnal yng Nglyn Ebwy ar 4 Rhagfyr 2007 a gofynnodd am dri enwebiad o blith yr Aelodau i fynychu fel cynrychiolwyr SACRE ar hwn.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a)* *derbyn a nodi cofnodion y cyfarfod o WASACRE a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2007;*

*(b)* *enwebu'r Cynghorwyr M.M. Jones a G.J. Pickering fel cynrychiolwyr SACRE i fynychu cyfarfod nesaf WASACRE yng Nglyn Ebwy ar 4 Rhagfyr, ac*

*(c)* *y dylai unrhyw aelod fyddai'n barod ac yn gallu mynychu fel trydydd cynrychiolydd WASACRE, gysylltu â'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG ar unwaith ar hyn.*

**485 CYFLWYNIAD: YMWELIAD UGANDA**

Cafwyd cyflwyniad powerpoint gan yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG am ei ymweliad diweddar ag Uganda. Roedd yn rhan o ddirprwyaeth oedd yn ymweld ag ysgolion a chymunedau yn ystod misoedd Medi/Hydref 2007 drwy'r elusen Christian Relief Uganda.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y daith wedi canolbwyntio ar ysgolion, eglwysi ac elusennau a threuliwyd amser yn y canlynol:-

- Kamuli: Ysgol Gynradd Rhieni a Chartref Plant Amddifad Gofal Maria, Kamuli (canolfan Christian Relief Uganda)
- Canolfan Plant Amddifad Hope & Sefydliad Polytechnig Lakaya (canolfan i blant y stryd)
- Coleg Golden Christian, Nsaggu (ysgol uwchradd a choleg galwedigaethol i ddisgyblion/myfyrwyr na fyddai fel arall yn cael addysg) a Meithrinfa ac Ysgol Gynradd Little Angels
- Eglwys Restoration New Life ac Eglwys Assemblies of Christ Nsaggu a Lukaya.

Roedd y cyflwyniad powerpoint yn rhoi cyfres o luniau o'r amser a dreuliwyd yn Uganda gan gynnwys yr eglwysi, yr ysgolion a'r cymunedau yr ymwelwyd â hwy a gweithgareddau a gwaith elusen a wnaed. Dywedodd yr Arolygwr/ Ymgynghorydd AG am y cysylltiadau gydag ysgolion yn y sir a'r gwaith o godi ymwybyddiaeth o wledydd sy'n datblygu a materion cyfrifoldeb. Roedd yn debygol y bydd ymweliad arall ag Uganda'n cael ei drefnu mewn tua deunaw mis i ddwy flynedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Arolygwr/Ymgynghorydd AG am rannu ei brofiadau gyda SACRE a thalodd deyrnged i'r gwaith elusennol rhagorol oedd yn cael ei wneud.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi cyflwyniad yr Arolygwr/Ymgynghorydd AG.*

**486 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai cyfarfod nesaf SACRE Sir Ddinbych yn cael ei gynnal am 10.00 a.m. dydd Llun, 4 Chwefror 2008 yn Siambr y Cyngor, Tŷ Nant, Nant Hall Road, Prestatyn.

Adroddodd y Cynghorydd G.J. Pickering am benodiad y Cynghorydd H.H. Evans fel arweinydd newydd y Cyngor. Wrth nodi bod y Cynghorydd Evans yn Aelod o SACRE, awgrymodd y Cynghorydd Pickering y dylid anfon gwahoddiad arbennig ato fel Arweinydd y Cyngor i fynychu cyfarfod nesaf SACRE. Cytunodd yr Aelodau â hyn.

Wrth gloi, diolchodd y Cadeirydd i Gyfieithydd y Cyngor a Chlerc SACRE am eu gwaith caled a dymunodd Nadolig a Blwyddyn Newydd fendithiol i bawb yn bresennol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 a.m.

*******